# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 25 Gorffennaf 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Hugh Irving, Barry Mellor a Cefyn Williams (Eitemau 1 – 3 ar y Rhaglen)

Cynghorwyr Bill Cowie, Hugh Irving a Cefyn Williams (Eitem 4 ar y Rhaglen)

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd i'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr holl bartïon i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt i bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003 – CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – PRINCE OF WALES, REGENT STREET, LLANGOLLEN

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais wedi dod i law gan Mr. Steven Evans am Drwydded Safle newydd mewn perthynas â Prince of Wales, Llangollen;

(ii) yr ymgeisydd a oedd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER I |
|---|---|---|---|
| Darparu cerddoriaeth fyw wedi'i seinchwyddo (tu mewn yn unig) | Dydd Llun – dydd Sul | 19:00 | 01:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (tu mewn yn unig – peiriant recordiau) | Dydd Llun – dydd Sul | 19:00 | 01:00 |
| Darparu Perfformio Dawns (Tu | Dydd Llun – dydd Sul | 19.00 | 01.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| mewn yn unig) | | | |
| Darparu Alcohol<br>(i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo) | Dydd Sul a dydd Llun<br>Dydd Mawrth a dydd Mercher<br>Dydd Iau – dydd Sadwrn | 11:00<br>11:00<br>11:00 | 00:00<br>23:00<br>01:00 |
| *Oriau y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd | Dydd Sul a dydd Llun<br>Dydd Mawrth a dydd Mercher<br>Dydd Iau – dydd Sadwrn | 11.00<br>11.00<br>11.00 | 01.00<br>00.00<br>02.00 |

(iii) *mae'r ymgeisydd hefyd wedi gofyn bod y safle yn cael aros ar agor i'r cyhoedd o 11.00am tan 2.00am ar Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan, ac yn ychwanegol at yr amseroedd a nodir uchod, mae'r ymgeisydd wedi gofyn awdurdodiad i ddarparu alcohol o 1.00am tan 2.00am ar Ŵyl San Steffan a Noswyl Nadolig;

(iv) un sylw (Atodiad A i'r adroddiad) wedi'i dderbyn gan ddau sydd â diddordeb ac yn byw ger y safle sydd wedi tynnu sylw at agweddau sy'n peri pryder mewn perthynas â sŵn, ymddygiad afreolus a sbwriel;

(v) Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau (Atodiad B i'r adroddiad) yn rhoi gwybod bod yna faterion sydd heb dal heb gael sylw yn nhermau darpariaethau diogelwch tân yn y safle y dylid eu datrys cyn i'r drwydded gael ei chyhoeddi;

(vi) Heddlu Gogledd Cymru, ar ôl cyflwyno sylwadau ar y cais ond yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd wedi llunio nifer o amodau sydd wedi eu cynllunio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (Atodiad C i'r adroddiad) ac ar y sail honno gofynnodd yr Heddlu, pe bai'r aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, eu bod yn ystyried cynnwys yr amodau hynny o fewn Atodlen Weithredu'r eiddo (Atodiad E i'r adroddiad);

(vii) Adran Rheoli Llygredd y Cyngor wedi cyflwyno sylwadau (Atodiad D i'r adroddiad) gan godi pryderon ynghylch agosrwydd y safle i eiddo preswyl a chynigiwyd nifer o amodau (a gytunwyd gan yr Ymgeisydd) i gael ei osod pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi;

(viii) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyledus i Bolisi Datgan Trwyddedu y Cyngor; Canllaw a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a

(ix) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Arweiniodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr aelodau trwy'r adroddiad ac amlinellodd ffeithiau'r achos. Roedd cyfryngu wedi bod yn digwydd rhwng yr Ymgeisydd a'r trigolion cyfagos er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon. Darllenwyd e-bost gan un o'r trigolion hynny, Mr. Simon Proffitt, yn cynghori bod yr Ymgeisydd

wedi cytuno i ystyried diogelwch cadarn a gwell ar gyfer y ffenestri ochr ac i orfodi'r gwaharddiad ar gario diodydd agored oddi ar y safle.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr ymgeisydd, Mr. Steven Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais. Mae problem dechnegol gyfreithiol yn golygu na fu'n bosibl i drosglwyddo'r drwydded safle presennol ac roedd angen felly cyflwyno cais newydd. Dywedodd Mr Evans bod yr eiddo wedi bod yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol o dan y drwydded flaenorol ac na fu unrhyw faterion gyda'r Heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd a'i fod hefyd wedi cytuno i'r holl fesurau y gofynnwyd amdanynt. Gofynnodd bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn unol â'r drwydded safle blaenorol ac fel y gwnaed cais amdano.

**SYLWADAU GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Mynychodd Mr. David Roberts, Rheolwr Cydymffurfio a Mr. Nigel Day, Swyddog Cydymffurfio ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Ymhelaethodd y Swyddogion Tân ar bryderon mewn perthynas â'r adeilad fel y manylir yn eu sylwadau ysgrifenedig (Atodiad B i'r adroddiad) ac yn dilyn yr archwiliad Diogelwch Tân diweddaraf, gan dynnu sylw at faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt cyn y rhoddir trwydded. Eglurwyd bod materion diogelwch tân a nodwyd yn dilyn arolygiad ym Mehefin 2015 heb gael sylw llawn, gan gynnwys y mater gyda'r giât ddwbl i ochr yr adeilad a oedd wedi'i gloi pan oedd pobl ar y safle gan achosi oedi i fynd allan mewn achos o orfod gadael mewn argyfwng. Yn ogystal, nid oedd y materion a nodwyd yn yr Asesiad Risg Tân ym mis Mai 2016 heb gael eu blaenoriaethu, eu gweithredu neu gwblhau. Mae llawer o faterion wedi cael eu nodi fel risg uchel ac angen mynd i'r afael â nhw mewn amser byr iawn neu cyn i'r eiddo gael ei feddiannu. Er bod yr Ymgeisydd wedi rhoi sicrwydd y byddai'r gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei ddarparu yn y cyswllt hwnnw. Mae'r ffaith bod rhai materion heb eu datrys ers Mehefin 2015 yn achosi pryder i'r Awdurdod Tân.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch y materion sy'n weddill esboniodd yr Ymgeisydd fod gwaith wedi ei wneud o ran profi a dyddio diffoddwyr tân a byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith arall yn cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf. Bu oedi cyn datrys y larwm tân a materion gyda'r giatiau dwbl o gofio bod yna gynlluniau i greu fflatiau uwchben y safle. Yn ogystal, mae'r Heddlu wedi mynnu bod y giatiau dwbl yn cael eu cloi fel mesur rheoli a bod cynllun wedi cael ei rhoi ar waith i ganiatáu i'r giât i gael ei agor mewn achos o dân. Mynegodd y Swyddogion Tân bryder ynghylch effeithiolrwydd y cynllun hwnnw ac awgrymodd fecanwaith electronig i sicrhau bod modd agor y giât yn hawdd.

**CYFLWYNIAD GAN BARTÏON Â DIDDORDEB**

Derbyniwyd un sylw ysgrifenedig (Atodiad A i'r adroddiad) gan Simon Proffitt a Jen Sandiford o Stryd y Rhaglaw yn nodi eu pryderon a oedd yn cynnwys sŵn, ymddygiad afreolus a sbwriel. Roedd Mr. Proffitt a Ms. Sandiford yn bresennol yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd Mr Proffitt at y sylwadau ysgrifenedig yn manylu ar ei bryderon. Tra'n derbyn bod rhai materion y tu hwnt i reolaeth y trwyddedai, mynegwyd pryderon ynghylch pa mor uchel oedd y gerddoriaeth yn dod o'r eiddo hyd oriau mân y bore a oedd yn achosi aflonyddwch. Cyfeiriodd hefyd at aflonyddwch wrth i gwsmeriaid adael yr adeilad gan ymgynnull ger yr eiddo ynghyd â phryderon dros daflu sbwriel, gan gynnwys gwydrau a photeli yn cael eu taflu. Nodwyd bod y gwaharddiad ar gwsmeriaid i fynd â diodydd oddi ar safle'r eiddo yn ystod y pythefnos diwethaf wedi lleihau'r broblem honno yn sylweddol.

Atebodd Mr Proffitt gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn-

- cwynion wedi eu gwneud i'r Heddlu yn ymwneud â (1) difrod i arwydd yn eu gardd, a (2) gwydr yn yr eiddo, y ddau ohonynt wedi eu cofnodi ond heb gymryd camau ar wahân i gyngor a roddwyd gan yr heddlu i gysylltu â nhw os oedd rhagor o broblemau
- mae wedi byw yn yr eiddo tua dwy flynedd a hanner ac methu â chofio os oedd problemau wedi gwella neu waethygu ers i'r Ymgeisydd gymryd drosodd y gwaith o redeg yr eiddo ddwy flynedd yn ôl. Ers i'r eiddo fod yn gweithredu o dan Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro mae pethau wedi gwella.

Aelodau hefyd yn gofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd wnaeth -

- egluro trefniadau rheoli ar y safle a chadarnhaodd ei bresenoldeb o 11.00pm ar ddiwrnodau lle'r oedd trwydded hwyr yn berthnasol
- gynghori fod safleoedd ar hyn o bryd yn gweithredu oriau caniataëdig o flaen y drwydded flaenorol gyda cherddoriaeth yn gorffen am 12.30am; tua 20/30 munud i orffen yfed; cwsmeriaid yn cael eu hannog i adael y safle erbyn 1.00am, a'r safle wedi'i glirio yn gyfan gwbl erbyn 1.10am.
- esbonio fod yr arfer blaenorol yn ymwneud â dosbarthu gwydrau plastig i gwsmeriaid ond bod gwaharddiad llwyr ar gwsmeriaid yn gadael gydag unrhyw gynwysyddion agored wedi ei gyflwyno yn ddiweddar - awgrymwyd bod posibilrwydd eu bod yn dod â chynwysyddion o safleoedd trwyddedig eraill a oedd yna'n cael eu taflu gan nad oedd y cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i'r eiddo gyda'r gwydrau
- cadarnhau ei fod wedi siarad â Mr. Proffitt ynghylch ei bryderon ac eglurodd y byddai'n gosod gwydr dwbl/triphlyg ar y ffenestri ochr fel yr argymhellwyd gan arbenigwr sain er mwyn lleddfu pryderon ynghylch hynny; cytunodd hefyd i fesurau rheoli sŵn gyda Swyddog Rheoli Llygredd y Cyngor; mewn perthynas â chyfyngwyr sŵn, tra byddai'n edrych i mewn i'r mater ymhellach, gall fod yn gost waharddol;
- dywedodd fod y safle wedi ei hen sefydlu ac yn adnabyddus fel lleoliad cerddoriaeth, a heb hynny byddai'n anymarferol.

**CYFLWYNO RHEOLI LLYGREDD**

Cyfeiriodd Mr. Sean Awbery o Adain Rheoli Llygredd y Cyngor at ei sylwadau ysgrifenedig (Atodiad D i'r adroddiad) yn cynnig gosod nifer o amodau ar y drwydded, os y'i caniateir, er mwyn lleihau'r risg o niwsans cyhoeddus. Cytunwyd ar yr amodau hynny gyda'r Ymgeisydd. Ers dod yn ymwybodol o'r pryderon sŵn a

godwyd gan y partïon â diddordeb, awgrymodd Mr Awbery y gellir cyflwyno amod pellach ar y drwydded mewn perthynas â gosod cyfyngwyr sŵn os yw'r newidiadau a gytunwyd arnynt ddim yn cynnwys lefelau sŵn fel y bo'n briodol.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol. Nododd yr aelodau eu sylwadau ysgrifenedig a nifer o amodau a gytunwyd arnynt rhwng yr Ymgeisydd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu (wedi eu hailgyflwyno yn Atodiad C i'r adroddiad). Roedd yr Heddlu wedi gofyn pe bai'r aelodau yn penderfynu caniatáu'r cais eu bod yn ystyried ymgorffori'r amodau hynny o fewn yr Atodlen Weithredu.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Wrth wneud datganiad terfynol atgoffodd yr Ymgeisydd yr Is-bwyllgor fod y safle wedi ei hen sefydlu fel lleoliad trwyddedig. Er ei fod yn derbyn bod problemau o bryd i'w gilydd yr oedd wedi gwneud pob ymdrech i'w datrys. Ailadroddodd ei fod yn barod i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol yn unol â chais yr Awdurdod Tân a Rheoli Llygredd ond gofynnodd ei fod yn cael cymaint o amser ag y bo modd i wneud y gwaith angenrheidiol o ystyried y gost, gan bwysleisio'r anawsterau wrth redeg safle trwyddedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Ailadroddodd ei barodrwydd i weithio gyda phob parti dan sylw er mwyn datrys y materion a godwyd.

**EGWYL I YSTYRIED Y CAIS**

Yn y fan hon (10.15am) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr amodau fel y nodir isod, bod y Drwydded Safle yn cael ei chaniatáu ar gyfer y canlynol -*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG*** | ***DIWRNODAU PERTHNASOL*** | ***AMSER O*** | ***AMSER I*** |
|---|---|---|---|
| *Darparu Cerddoriaeth Fyw wedi'i seinchwyddo (Tu mewn yn unig)* | *Dydd Sul - dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *19:00<br>19.00* | *00:00<br>01.00* |
| *Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Tu mewn yn unig – peiriant recordiau)* | *Dydd Sul - dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *19:00<br>19.00* | *00.00<br>01:00* |
| *Darparu Perfformio Dawns (Tu mewn yn unig)* | *Dydd Sul - dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *19.00<br>19.00* | *00.00<br>01.00* |
| *Cyflenwi Alcohol (I'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo)* | *Dydd Sul - dydd Iau<br>Dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *11:00<br>11:00* | *00:00<br>01:00* |
| **Oriau y bydd y safle ar agor i'r* | *Dydd Sul - dydd Iau* | *11.00* | *00.30* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *cyhoedd* | *Dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *11.00* | *01.30* |

*Rhoddwyd awdurdodiad hefyd i'r safle i aros ar agor i'r cyhoedd o 11.00am tan 02:00am ar Noswyl Nadolig a Gŵyl San Steffan.*

*Yn ychwanegol at yr oriau a ganiateir ar gyfer darparu alcohol, rhoddwyd awdurdodiad i ddarparu alcohol o 11.00am tan 01:30am ar Ŵyl San Steffan a Noswyl Nadolig.*

***AMODAU***

***Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru -***

*Rhaid datrys y sylwadau a roddwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu cyflwyniad, ac fel manylwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, i'w boddhad cyn y cyflwynir y drwydded.*

***Fel y cawsant eu cyflwyno gan Heddlu Gogledd Cymru -***

*Atal Trosedd ac Anhrefn*

*1)* ***<u>TCC</u>***

*a) Bydd system teledu cylch caeedig yn cael ei gosod yn yr adeilad a bydd ar waith pryd bynnag y bo'r safle ar agor.*
*b) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gamerâu yn monitro tu mewn a thu allan yr adeilad. Yn achos tu mewn yr eiddo bydd digon o gamerâu wedi eu gosod i weld pob rhan o'r adeilad y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ac eithrio ardal y toiledau. Yr holl bwyntiau mynediad ac ymadael i'w gweld gan y TCC a rhaid iddo ddangos pen ac ysgwyddau yn glir*
*c) Bydd y system teledu cylch caeedig yn ddigon safonol i fedru darparu delweddau o ansawdd tystiolaethol ac yn gallu adnabod wynebau mewn pob math o olau*
*d) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gyfleuster i recordio delweddau o bob camera a chaiff y lluniau hyn eu cadw am o leiaf 28 diwrnod*
*e) Bydd y system teledu cylch caeedig yn cynnwys cyfleuster sy'n cynnwys y dyddiad a'r amser cywir ar y delweddau sy'n cael eu recordio*
*f) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gyfleuster er mwyn gallu llwytho delweddau i ryw fath o gyfrwng cludadwy. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw darparu cyfryngau cludadwy ac os bydd cyfryngau cludadwy yn cael eu hatafaelu, cyfrifoldeb y sefydliad yw sicrhau bod fformatau ychwanegol o gyfryngau cludadwy ar gael*
*g) Bydd delweddau o'r system teledu cylch caeedig ar gael i'r Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais*
*h) Bydd o leiaf un aelod o staff a fydd wedi'i hyfforddi i weithredu'r system teledu cylch caeedig ac a fydd yn gallu darparu'r delweddau a recordiwyd o'r system teledu cylch caeedig ar ddyletswydd ar bob achlysur pan fo'r eiddo ar agor.*

*i) Mae'n rhaid i'r Goruchwylydd Eiddo Dynodedig sicrhau gwiriadau dyddiol bod y system teledu cylch caeedig yn gweithio ar ddechrau busnes bob dydd - bydd unrhyw ddiffygion yn y system yn cael sylw ar unwaith. Rhaid i hyn gynnwys gweithrediad y camerâu, y cyfleusterau recordio, cyfleusterau ar gyfer darparu delweddau a chywirdeb yr amser a'r dyddiad. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r archwiliadau hyn, gan gynnwys llofnod y person sy'n cynnal yr archwiliad. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gael ei gadw ar y safle bob amser a'i wneud ar gael i gynrychiolydd o unrhyw awdurdod cyfrifol ar gais.*

*2) **CYN** cael caniatâd i werthu alcohol bydd pob aelod o staff heb drwydded bersonol, gan gynnwys unrhyw aelodau di-dâl o staff, aelodau'r teulu a phobl achlysurol a allai fod yn gysylltiedig â gwerthu alcohol ar y safle, yn cael eu hyfforddi yn eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r Ddeddf honno - yn benodol byddant yn cael hyfforddiant o ran rhoi alcohol i bobl sy'n feddw*

*3) Cynhelir hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â'r hyfforddiant cychwynnol y sonnir amdano yn 2) uchod ar gyfer pob aelod o staff sy'n ymwneud â gwerthu alcohol bob chwe mis*

*4) Dylid cadw cofnod o'r hyfforddiant cychwynnol a'r hyfforddiant diweddaru dilynol a dderbyniwyd a dylid gallu eu cyflwyno i heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais*

*5) Llyfr Achosion a Gwrthodiadau - rhaid cadw llyfr achosion a gwrthodiadau (gyda'r tudalennau wedi'u rhifo) ar y safle a bydd ar gael i'w archwilio gan yr awdurdodau cyfrifol. Rhaid defnyddio'r llyfr achosion a gwrthodiadau i gofnodi'r canlynol -*

*a) Unrhyw achos o drais neu anhrefn ar neu yn union y tu allan i'r safle.*
*b) Unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â chyffuriau (cyflenwi / meddiant / dylanwad) ar y safle.*
*c) Unrhyw drosedd neu weithgarwch troseddol arall ar y safle.*
*d) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i bobl sy'n feddw.*
*e) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i rai dan 18 oed neu unrhyw un sy'n ymddangos o dan 18 oed.*
*f) Unrhyw alwad am gymorth yr heddlu i'r eiddo.*
*g) Unrhyw un sy'n cael eu taflu allan o'r safle*
*h) Unrhyw gymorth cyntaf / gofal arall a roddwyd i gwsmer.*

*6) Mae'n rhaid i'r llyfr achosion a gwrthodiadau fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau cyfrifol ar gais. Gall yr wybodaeth hon hefyd gael ei chofnodi yn electronig trwy ddefnyddio system til neu system debyg.*

*7) Dylid adolygu'r llyfr achosion a gwrthodiadau bob pythefnos gan reolwr yr eiddo a'i lofnodi/dyddio i gadarnhau cydymffurfiaeth*

*8) Bydd cofnod y llyfr achosion a gwrthodiadau ar gael i'w archwilio ar gais swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol*

9) *Bydd y safle’n cynnal asesiad risg ar gyfer yr angen am staff drws. Yn ychwanegol at fasnach y penwythnos bydd hyn yn cynnwys unrhyw achlysur, Gwyliau Banc, Noswyl Nadolig a Nos Calan.*

*Atal Niwsans Cyhoeddus.*

1) *Pan fydd y safle yn cynnal cerddoriaeth fyw ac adloniant yn yr eiddo y tu hwnt i 9pm, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon a DJs, bydd rheolwyr yn sicrhau bod drysau allanol wedi eu cau bob amser gan gynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau nad oes gormod o sain yn gadael yr eiddo.*

2) *Bydd y rheolwyr yn sicrhau bod pobl y tu allan i'r adeilad sy'n defnyddio'r ardal ysmygu a’r ardd gwrw ddim yn creu gormod o sŵn a niwsans*

3) *Bydd y rheolwyr yn sicrhau bod cwsmeriaid yn gadael yr eiddo yn dawel ac yn drefnus, gan eu hatgoffa i gadw lefelau sŵn i lawr os oes angen.*

*Amddiffyn Plant Rhag Niwed*

1) *1) Bydd y safle yn gweithredu polisi gwirio oedran Her 25*

2) *Bydd yr holl staff, gan gynnwys unrhyw aelodau di-dâl o staff, aelodau'r teulu a phobl achlysurol sy'n ymwneud â gwerthu alcohol yn cael eu hyfforddi yn y polisi Her 25 CYN cael caniatâd i werthu alcohol a byddant yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi o leiaf bob chwe mis.*

3) *Bydd cofnodion o'r hyfforddiant Her 25 yn cael ei gadw a bydd ar gael i'w archwilio ar gais gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol.*

***Fel a gyflwynwyd gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor -***

1) *Rhaid i'r holl fynedfeydd ac allanfeydd, gan gynnwys y drws i’r ardal ysmygu fod gyda mynedfeydd lobi, pob un gyda 2 set o ddrysau sy'n cau eu hunain, er mwyn lleihau'r sŵn sy’n gadael yr adeilad; ac ar unrhyw adeg o leiaf un set o ddrysau ar gau pryd bynnag y mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel a ystyrir uchod fel sŵn 'cefndir'*

2) *Rhaid i'r holl ddrysau a ffenestri gael eu cadw ar gau pa fydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel a ystyrir yn uwch na’r sŵn 'cefndir' uchod er mwyn lleihau'r sŵn sy’n dianc o’r eiddo.*

3) *Os oes angen awyru ychwanegol, bydd yr eiddo yn cael ei osod â system awyru / aerdymheru er mwyn osgoi'r angen i agor drysau a ffenestri pa bryd bynnag y mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel a ystyrir uchod fel sŵn 'cefndir'*

4) *Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth fyw / wedi’i recordio tu allan yn yr ardd gwrw / ardal ysmygu*

5) *Rhaid cau yr ardal ysmygu i'r cyhoedd ar gyfer yfed alcohol ar ôl 11pm*

6) *Dim ond rhwng 9am a 9pm y caniateir rhoi poteli mewn cynwysyddion tu allan i'r eiddo er mwyn lleihau aflonyddwch i eiddo cyfagos*

7) *Bydd hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy yn cael eu harddangos ar bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol ac i adael y safle a'r ardal yn dawel*

8) *Ni chaniateir i unrhyw fflachio neu oleuadau llachar gael eu lleoli ar neu du allan i'r eiddo a dylai unrhyw oleuadau diogelwch neu fynediad gael eu gosod a'u gweithredu fel nad ydynt yn achosi niwsans i eiddo cyfagos.*

*Mae'r amodau sŵn i'w cyflawni fel yr uchod ac i gael eu cwblhau i foddhad Swyddog Rheoli Llygredd y Cyngor o fewn chwe mis i ddyddiad y gwrandawiad. Os, ym marn y Swyddog Rheoli Llygredd bod yr amodau sŵn ddim yn cyfyngu ar y sŵn i lefel a fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol, yna bydd yn rhoi cyngor lle byddai gosod cyfyngwyr sŵn o fudd i'r eiddo, ac mewn amgylchiadau o'r fath y bydd yr ymgeisydd yn gosod cyfyngwyr yn yr eiddo. Mewn achos lle na chynghorir gosod cyfyngwyr sŵn, bydd y Swyddog Rheoli Llygredd yn cynghori pa gamau eraill y bydd yn ofynnol i leihau effaith sŵn sy’n achosi aflonyddwch ac annifyrrwch i gymdogion lleol.*

***Amod Ychwanegol -***

*Yn ogystal â'r uchod bydd yn rhaid i’r Ymgeisydd sicrhau nad yw cwsmeriaid yn gadael yr adeilad gydag unrhyw gynwysyddion diod agored.*

Cyflwynodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i'r rhai a oedd yn bresennol ac adroddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn -

Clywodd yr Is-bwyllgor am yr effaith y mae’r eiddo wedi ei gael ar drigolion lleol, o dan y gweithrediad presennol o Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Roedd hyn yn cynnwys poteli gwydr yn cael eu canfod yn eiddo cymdogion; sbwriel gan gwsmeriaid, gan gynnwys bonion sigaréts, ymhlith pethau eraill. Clywyd hefyd dystiolaeth bod y lefelau sŵn y gellir eu priodoli i'r eiddo yn uchel ac yn annerbyniol ac yn achosi niwsans ac aflonyddwch, yn enwedig yn ystod oriau mân y bore. Clywodd yr Is-bwyllgor fod cwsmeriaid yn gadael y safle yn y fath fodd a fyddai'n tarfu ar drigolion lleol, yn enwedig y rhai gyda theuluoedd ifanc.

Ystyriwyd ei bod yn briodol i gyfyngu ar yr oriau a ganiateir ar gyfer gweithgareddau trwyddedig, ynghyd ag oriau y byddai'r safle ar agor i'r cyhoedd er mwyn lleihau effaith sŵn yn dod o'r adeilad yn hwyr yn y nos ac yn oriau mân y bore ac felly hyrwyddo'r amcanion trwyddedu .

Clywodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth hefyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, er gwaethaf ymweld â'r safle yn wreiddiol ym mis Mehefin 2015, bod yr argymhellion a wnaed bryd hynny heb eu cwblhau'n llawn a bod hyn yn hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithiol ac i sicrhau cydymffurfiad â'r amcan trwyddedu ar gyfer Diogelwch y Cyhoedd.

Mae'r Is-bwyllgor yn rhoi ystyriaeth i amodau a awgrymwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac yn ystyried y byddent yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn y rownd y cafodd y rhain eu derbyn gan yr Ymgeisydd ac felly yn cael eu cyflwyno ar wyneb y drwydded.

Yn ogystal, ystyriodd yr Is-bwyllgor y cynrychioliadau a gyflwynwyd gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a ystyrir y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar liniaru lefel y sŵn yn dod o'r safle ac felly hyrwyddo'r amcan trwyddedu sy'n ymwneud â Niwsans Cyhoeddus, a Throsedd ac Anrhefn yn benodol . Derbyniodd yr ymgeisydd yr amodau a osodir ar wyneb y drwydded, i'w gweithredu o fewn 6 mis ar ôl caniatáu'r drwydded.

**4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – BAR BOW, 27 WATER STREET, Y RHYL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) cais wedi dod i law Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded eiddo a ddelir gan Mr. James Benbow mewn perthynas â Bar Bow, 27 Stryd y Dŵr, Y Rhyl yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003;

(ii) y sail ar gyfer adolygu sy'n ymwneud â phob un o'r pedwar amcan trwyddedu (Atal Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd; Atal Niwsans Cyhoeddus ac Amddiffyn Plant rhag Niwed), fel a ganlyn -

*"o ganlyniad i achosion o drosedd ac anhrefn, a phryderon a godwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ynghylch rheolaeth yn yr eiddo trwyddedig, yn enwedig methiant i gydymffurfio gydag amodau trwydded yr eiddo.*

*Er gwaethaf ymdrechion gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, gan ddefnyddio'r weithdrefn adolygu safleoedd trwyddedig, mae achosion difrifol yn parhau i ddigwydd yno*

*Mae'r eiddo wedi methu â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.*

*Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddiffyg hyder yn y Goruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig, Deiliad y Drwydded ar gyfer yr Eiddo a rheolwyr yr eiddo i reoli'r eiddo'n gyfrifol."*

mae manylion llawn y cais adolygu a'r achosion a'r ymyriadau a wnaed gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych wedi eu hatodi yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn;

(iii) cynhaliwyd cyfarfod gyda Deiliad y Drwydded a Goruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig i drafod y pryderon parhaus a chytunwyd ar gynllun gweithredu Cam 1 manwl gan bob parti na chydymffurfiwyd ag ef.

(iv) cynhaliwyd cyfarfod dilynol ar 6 Gorffennaf 2016 ar gais Cynrychiolydd Cyfreithiol Deiliad y Drwydded i'r Eiddo i ganiatáu'r cyfle i gyflwyno'r camau a

gymerwyd i wella rheolaeth o’r eiddo trwyddedig (cynigion amlinellol wedi eu rhestru yn y cyfarfod);

(v) copi llawn o'r Drwydded Safle presennol gan gynnwys yr atodlen weithredu bresennol sydd wedi ei gynnwys yn y Cais am Adolygiad (Atodiad 2 i’r adroddiad);

(vi) yr angen i ystyried y cais ar gyfer Adolygiad gan roi ystyriaeth ddyledus i’r Canllaw a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; Polisi Datganiad Trwyddedu y Cyngor; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, ac

(vii) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais am Adolygiad.

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad yn amlinellu ffeithiau'r achos a'r dewisiadau sydd ar gael i'r Is Bwyllgor wrth wneud eu penderfyniad.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Roedd Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu, Gill Jones, y Prif Arolygydd Paul Joyce, Rhingyll Steve Prince a Rheolwr Trwyddedu yr Heddlu, Aaron Haggas yn bresennol i gefnogi'r Cais am Adolygiad ar ran Heddlu Gogledd Cymru.

Eglurodd Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu fod y cais am adolygiad wedi ei gyflwyno fel y dewis olaf gan gynghori bod y swyddogion wedi gweithio'n galed gyda'r rheolwyr i geisio eu cefnogi ond mae’r holl ymdrechion hynny wedi methu. Roedd yr adolygiad wedi cael ei alw yn seiliedig ar bob un o'r pedwar o'r amcanion trwyddedu ac roedd yn gyfrifoldeb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r problemau hynny a sicrhau bod yr adeilad yn cael ei weithredu yn effeithlon. Cyfeiriodd at restr hir o achosion sy'n gysylltiedig â'r safle ers iddo gael ei agor yn 2014 gan gynnwys ymosodiadau difrifol, cyffuriau, lladrata ac yfed dan oed. Mae'r achos diweddaraf fel yr adroddwyd yn y wasg yn cyfeirio at ymosodiad difrifol a oedd wedi digwydd y tu allan i'r adeilad gan arwain at achos lle torrwyd trwyn y dioddefwr gyda’r ymosodwr wedi cael ei ddedfrydu i ddwy flynedd o garchar. Nid oedd Deiliad Trwydded yr Eiddo, Mr. James Benbow yn bresennol ac er bod y cynnig i drosglwyddo Trwydded yr Eiddo wedi ei nodi ni chafodd cais ffurfiol ei gyflwyno. O ystyried y gyfres o achosion a diffyg ymgysylltu ar ran yr eiddo nid oedd gan yr Heddlu unrhyw hyder yng ngallu'r rheolwyr i weithredu'r eiddo yn gyfrifol.

Rhoddodd Rheolwr Trwyddedu yr Heddlu rhywfaint o gefndir i'r eiddo a oedd yn Far Chwaraeon/Nos poblogaidd oedd yn denu cwsmeriaid o ystod oedran eang. Mae cynllun agored y safle yn golygu bod modd gweld a delio gyda phroblemau. Cyfeiriwyd at sawl ymgais i ymgysylltu gyda Deiliad Trwydded yr Eiddo a rheolaeth yr eiddo ers mis Hydref 2014, gan gynnig cyngor a chefnogaeth yn y lle cyntaf mewn rheoli eiddo trwyddedig yn effeithiol ac wedi hynny ar fynd i'r afael â meysydd penodol o bryder a nodwyd ac mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol. Hysbyswyd yr aelodau o'r diffyg ymgysylltiad amlwg gan reolaeth yr eiddo a phryderon penodol dros agwedd Mr. Benbow a'r modd ei fod wedi gwrthod ymuno â Rheolau'r Rhyl a Pub Watch a'i amharodrwydd i weithredu polisïau a newidiadau

er mwyn mynd i'r afael â'r problemau penodol ac i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Ystyriodd Mr Benbow ei bod yn dderbyniol i ganiatáu i unigolion yn yr adeilad oedd wedi'u gwahardd o dan Rheolau'r Rhyl ac roedd rheolwyr yr eiddo yn ddiystyriol o bryderon yr Heddlu ac wedi methu â derbyn bod problemau rheoli ar y safle a'u cyfrifoldebau yn hynny o beth.

Dangoswyd lluniau teledu cylch cyfyng i'r Is-bwyllgor o nifer o achosion ar y safle yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2016, gan gynnwys ymosodiadau/ymladd difrifol y tu mewn i'r adeilad a diffyg rheolaeth; dyn dro ar ôl tro yn dangos ei organau rhywiol i gwsmeriaid eraill heb ei herio; plant yn dod i mewn ac allan o'r safle heb oruchwyliaeth; dynion yn defnyddio'r toiledau merched, a si bod delio cyffuriau a chymryd cyffuriau yn mynd ymlaen yn yr eiddo. Tynnwyd sylw'r Is-bwyllgor hefyd at ddigwyddiadau penodol a nodir yng nghyflwyniad ysgrifenedig yr Heddlu (Atodiad 1 i'r adroddiad) o ran yfed dan oed; ymddygiad rhywiol ac ymosodiadau difrifol eraill ynghyd â nifer o achosion difrifol y mae'r rheolwyr wedi methu ag adrodd i'r Heddlu. Ymhelaethodd Rheolwr Trwyddedu yr Heddlu ar y camau gweithredu a restrir yn y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ar 20 Mai 2016 er mwyn hyrwyddo gweithgaredd trwyddedadwy cyfrifol a mynd i'r afael â'r problemau y nodwyd, y rhan fwyaf ohonynt heb gael eu bodloni, ac anhrefn treisgar a defnyddio/cyflenwi cyffuriau wedi parhau yn yr eiddo. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos diffyg rheolaeth gadarn o'r eiddo a oedd yn tanseilio'r pedwar amcan trwyddedu.

Cyfeiriodd Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu at y cyfarfod gyda Deiliad Trwydded yr Eiddo a'i Gynrychiolydd Cyfreithiol (Mr Winston Brown) ar 6 Gorffennaf 2016 lle maent wedi cyflwyno nifer fach o gamau gweithredu a gymerwyd i wella rheolaeth yr eiddo. Ers hynny ni fu unrhyw gynigion pendant ynghylch sut y byddai'r problemau yn cael sylw. Yn olaf, cyfeiriwyd at y neges e-bost dyddiedig 21 Gorffennaf, 2016 gan Mr. Brown yn manylu ar gynigion i drosglwyddo Trwydded yr Eiddo i Mr. Luke Irving gyda Mr Benbow yn tynnu'n ôl o unrhyw ymrwymiad â'r busnes yn y dyfodol, a chau'r safle am hyd at 28 diwrnod er mwyn gallu adnewyddu ac ail-frandio. O ystyried bod Mr Irving eisoes yn rhan o'r un rheolaeth ac o ystyried y diffyg mesurau i fynd i'r afael â'r problemau ac i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd i'r heddlu ynglŷn â'r cynigion hynny ac nid oeddent yn hyderus y byddai unrhyw newidiadau mawr yn cael eu gweithredu. Ychwanegodd y Prif Arolygydd Paul Joyce fod angen presenoldeb cyson yr heddlu yn yr ardal a dywedodd y Rhingyll Steve Prince yn ei bum mlynedd ar hugain fel Swyddog yr Heddlu nad oedd erioed yn cofio i eiddo achosi pryder o'r fath.

**CYNRYCHIOLAETH DEILYDD TRWYDDED YR EIDDO**

Mr. Winston Brown, Cyfreithiwr Deilydd yr Drwydded, Miss. Jessica Lane, Goruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig (GED) Mr Luke Irving, Rheolwr y Bar yn bresennol i gefnogi'r adolygiad o'r drwydded. Roedd Mr. Brown wedi cyflwyno ychydig o ddogfennaeth (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i gefnogi'r adolygiad o'r drwydded gan gynnwys amlinelliad o'r cynigion i fynd i'r afael â nhw a materion o bryder fel y trafodwyd gyda'r Heddlu yn ystod eu cyfarfod ar 6 Gorffennaf ynghyd â sylwadau gan yr ymgynghorydd diogelwch. Anfonwyd e-bost dyddiedig 21 Gorffennaf, 2016 yn manylu nifer o gynigion ychwanegol, a grynhoir isod -

- bod Trwydded yr Eiddo yn cael ei drosglwyddo i Luke Irving gyda James Benbow heb unrhyw gyfranogiad yn y busnes yn y dyfodol
- Bar Bow i gau o 7 Awst, 2016 am hyd at 28 diwrnod er mwyn adnewyddu ac ail-frandio y busnes
- Bar Bow i gael ei ailagor dan enw newydd i ddangos math gwahanol o fusnes er mwyn sicrhau nad oedd y cwsmeriaid anghywir yn cael eu denu yno.
- cwmni diogelwch Awdurdod y Diwydiant Diogelwch presennol yn cael eu cadw ond cyfarfodydd misol i'w cynnal gyda chynrychiolydd o'r cwmni diogelwch, GED a swyddog yr heddlu ar gyfer trwyddedu i adolygu perfformiad trefniadau diogelwch
- dadlau y byddai'r cynigion, ynghyd â chysylltu â'r awdurdodau perthnasol yn arwain at amgylchedd sefydledig a diogel ar gyfer y cyhoedd a staff.

Diolchodd Mr. Brown i'r Heddlu am eu cyflwyniad manwl. Dywedodd fod problemau yn cael eu cydnabod a bod mesurau cymesur yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hwy, gan dynnu sylw at y prif faterion fel a ganlyn -

- mae peidio â bod yn aelod o Reolau'r Rhyl wedi arwain at bobl sydd wedi cael eu gwahardd o sefydliadau eraill yn cael eu gadael i mewn i Bar Bow ac o ganlyniad i hynny mae wedi dod yn atyniad ar gyfer trafferthion – mae hyn bellach wedi'i gydnabod ac mae’r eiddo wedi ymuno â Rheolau'r Rhyl a Pub Watch i ddarparu sicrwydd bod pobl sy’n creu trafferth yn cael eu cadw allan
- mewn perthynas â phlant a chyffuriau ar y safle, honnwyd bod staff drws wedi bod yn ymddwyn yn anghyfreithlon gyda delio cyffuriau yn y gorffennol sydd bellach wedi’i ddatrys gan y GED newydd sy’n gweithio’n dda gyda staff drws newydd
- trosglwyddiad arfaethedig o Drwydded yr Eiddo i Luke Irving wedi codi oherwydd y diffyg hyder a fynegwyd gan yr Heddlu yn Neiliad y Trwydded Eiddo presennol ac fe’i ystyriwyd yn fesur synhwyrol er mwyn symud ymlaen yn adeiladol gyda Mr Benbow i ganolbwyntio ar fusnesau eraill - dadleuwyd bod Mr Irving yn brofiadol iawn yn y fasnach drwyddedig. Er bod y GED presennol wedi cael ei beirniadu roedd hi wedi ymrwymo yn y gwaith yn fawr ac yn awyddus i newid pethau yn y sefydliad
- dangos bod llawer o'r problemau yn hanesyddol ac yn gysylltiedig â'r GED blaenorol, a bod y newid arfaethedig o ran rheoli ynghyd â mesurau ychwanegol yn helpu'r safle i symud ymlaen
- ymhelaethwyd ar y mesurau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod gyda'r Heddlu ar 6 Gorffennaf 2016, yn enwedig hyfforddiant a oedd wedi ei gynnal i fynd i’r afael ag agweddau sy'n peri pryder gan gynnwys meddwdod a chyffuriau i alluogi staff i ddelio â'r materion hynny yn brydlon ac yn effeithlon.

Dadleuodd Mr Brown, o ystyried y camau sylweddol sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan yr Heddlu, ni fyddai diddymu yn gymesur yn yr achos hwn. Yng ngoleuni beirniadaeth yr Heddlu o’r GED presennol, Miss. Lane, byddai newid GED hefyd yn cael ei ystyried ac awgrymwyd y byddai’r cam hwn yn ymateb mwy cymesur i'w ystyried mewn ymateb i bryderon yr Heddlu.

Mae Goruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig, Miss. Lane wedi adrodd ar yr hyfforddiant staff a wnaed ar ymwybyddiaeth alcohol/cyffuriau, rheoli gwrthdaro a theledu cylch

cyfyng. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd wedi cael eu cyflwyno i ymdrin â materion fel Her 25, gwirio toiledau, ac ati ac mae hi eisoes wedi sylwi ar newid enfawr yn y bar, gyda llai o achosion, a llai o rai difrifol, gan awgrymu bod angen i bethau drwg i ddigwydd er mwyn i bethau newid. Darparodd Miss. Lane sicrwydd mai'r nod oedd rhedeg bar heb unrhyw drafferthion a bod mesurau yn cael eu cymryd a oedd eisoes yn cael effaith, megis ymarfer Rheolau'r Rhyl a bod yn rhagweithiol yn y cyswllt hwnnw. Roedd hi eisiau gweithio'n agos gyda'r Heddlu a datblygu cysylltiadau da, gan gynghori bod adroddiadau am achosion yn cael eu e-bostio yn wythnosol i'r Heddlu a'r Adran Trwyddedu a bod yr Heddlu yn cysylltu mewn ymateb i achosion fel y bo'n briodol. Teimlai Miss. Lane y byddai cau ac ail-agor y bar gydag enw gwahanol a sefydlu bar o safon yn arwain at ddechrau o'r newydd, o ran rheoli a chwsmeriaid. O ystyried ei chysylltiad blaenorol gyda rheoli'r safle derbyniodd Miss. Lane bod posibilrwydd y byddai pryderon ynghylch ei pharhad fel GED ac y byddai'n agored i'r awgrym i benodi GED newydd i roi mwy o hyder yn y cyswllt hwnnw. Yn olaf derbyniodd bod y newidiadau yn hanfodol wrth newid diwylliant yr eiddo ac roedd yn hyderus y byddai'r dull rheoli cadarn newydd yn profi'n effeithiol.

Ymatebodd Cynrychiolwyr Bar Bow gwestiynau gan yr Aelodau fel a ganlyn -

- mewn perthynas â chynigion i drosglwyddo Trwydded yr Eiddo eglurwyd bod Mr Benbow yn berchen ar yr eiddo ond y byddai'r drwydded yn cael ei throsglwyddo i Mr Irving ac ni fyddai Mr. Benbow yn cymryd rhan yng ngweithredu'r eiddo o ddydd i ddydd – roedd posibilrwydd y byddai'r bar yn cael ei brydlesu i Mr. Irving a'i weithredu fel eiddo ar wahân
- Roedd Miss. Lane wedi bod yn GED ar y safle ers mis Ionawr 2016 a bod y GED blaenorol wedi dod â llawer o drafferth i'r eiddo
- derbyniwyd na ellir gwneud y newid dros nos, ond bod mesurau wedi cael eu cyflwyno a bod pethau yn gwella
- roedd Miss. Lane wedi bod yn aneglur ynghylch pa agwedd o'r strategaeth brisio oedd yn peri pryder i'r Heddlu o ystyried bod y prisiau yn gystadleuol ac yn unol â safleoedd trwyddedig eraill - fodd bynnag, mae cyngor yr Heddlu wedi cael ei gymryd yn y cyswllt hwnnw
- cadarnhau bod llyfr achosion yn cael ei gadw ac yn nodi manylion unrhyw achosion a bod yr Heddlu yn cael eu galw pan fo hynny'n briodol
- cynghorodd Miss. Lane nad oedd ganddi unrhyw brofiad blaenorol o weithio yn y fasnach drwyddedu cyn ei chyflogaeth yn Bar Bow lle bu'n gweithio i ddechrau fel staff bar cyn cymryd yr awenau fel rheolwr ym mis Ionawr 2016; roedd wedi mynychu Cwrs BIIAB ac yn dymuno symud ymlaen ymhellach yn y diwydiant. Cyfeiriodd Mr Irving at ei hanes cyflogaeth flaenorol a'i brofiad yn y maes trwyddedu sydd wedi ymestyn dros y 6/7 mlynedd diwethaf ac mae yntau hefyd wedi ymgymryd â'r cwrs BIIAB.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd gwestiynau i Gynrychiolwyr yr Heddlu a ddywedodd -

- mewn perthynas â honiadau Miss Lane bod y safle wedi gwella dros y misoedd diwethaf, dywedodd yr Heddlu y byddent yn disgwyl gweld newidiadau mewn sefydliad pan fyddai rhybudd o adolygiad ac roedd yn rhy gynnar i farnu a fyddai unrhyw effaith sylweddol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Roedd y

dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys y cyfnod o 2014 ac roedd yn cynnwys rhai achosion diweddar

- os byddai Trwydded y Safle yn cael ei drosglwyddo, byddai Mr. Benbow yn dal i gadw diddordeb busnes ac elfen o reolaeth a oedd yn achos pryder. Mae'r GED a Luke Irving wedi bod yn rhan o'r strwythur rheoli presennol ac nid oedd unrhyw effaith sylweddol wedi'i ddangos yn yr eiddo
- ni ddylid caniatáu i'r achosion difrifol a nodwyd yn yr eiddo barhau tra bod rheolaeth yr eiddo yn adolygu ei brosesau.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Yn ei ddatganiad terfynol ymatebodd Rheolwr Trwyddedu'r Heddlu i'r sylwadau blaenorol a wnaed gan Miss. Lane nad oedd yn cytuno â Rheolau'r Rhyl ond y byddai'n cydymffurfio er mwyn y safle ac mae newydd gysylltu â'r cynllun Pub Watch mae Miss Lane ar 4 Gorffennaf 2016. Mae Mr. Benbow dal yn gysylltiedig â'r eiddo ac yn rhoi'r bai ar yr Heddlu am yr achos difrifol ar 30 Mai 2016 fel y gwelwyd o sylwadau ar facebook. Cyflwynwyd bod symud rheolaeth o gwmpas yn strategaeth wael i ddelio â phryderon ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o'r hyn y byddai ail-frandio yn ei gyflawni ac nid oedd yr Heddlu yn fodlon bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith i ddatrys problemau. Mae'r gostyngiad mewn achosion diweddar y cyfeiriwyd atynt gan Miss. Lane yn amheus gyda achosion difrifol fel ymosodiad â morthwyl heb gael ei riportio i'r Heddlu. Yn olaf, mae'r Heddlu wedi bod yn siomedig i nodi sylwadau Miss. Lane fod yn rhaid i bethau fynd cynddrwg cyn iddynt allu gwella – mae'r Heddlu yn ceisio cefnogi sefydliadau trwyddedig ond yn dymuno cael sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn dda a'u rheoli yn gyfrifol, ac nid yw gadael i bethau fynd mor wael cyn eu gwella yn arfer cyffredin.

**EGWYL I YSTYRIED Y CAIS**

Yn y fan hon (2.00pm) gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *bod y Drwydded Eiddo mewn perthynas â Bar Bow, 27 Stryd y Dŵr, Y Rhyl yn cael ei dirymu.*

Eglurodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i bob parti yn y cyfarfod a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn -

Mynegodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu bryderon difrifol ynghylch y gyfres o achosion a materion yn ymwneud â'r eiddo fel y'i cyflwynwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a oedd yn dangos methiannau parhaus yn rheolaeth yr eiddo a'r methiant i gwrdd â phob un o'r pedwar amcan trwyddedu a fanylir, yn arbennig, isod -

Atal Trosedd ac Anhrefn

Roedd tystiolaeth glir o drosedd ac anhrefn ar y safle yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a dros y misoedd diwethaf. Mae'r drosedd ac anhrefn yn arwain at anafiadau difrifol i gwsmeriaid a staff yn yr adeilad. Roedd tystiolaeth o arfau yn cael eu defnyddio a thystiolaeth debygol o gymryd cyffuriau a gwerthu cyffuriau yn

yr eiddo. Roedd tystiolaeth hefyd bod dynion yn defnyddio'r toiledau merched gan roi merched mewn perygl o niwed. Roedd tystiolaeth glir bod gwiriadau ar doiledau yn annigonol ar y safle. Bu ymladd ac aflonyddwch yn aml gan arwain at erlyniadau troseddol. Ystyriodd yr Is-bwyllgor na ddylai staff a chwsmeriaid fod mewn perygl os ydynt yn bresennol yn yr eiddo er gwaethaf yr adeg o'r dydd yr oedd yr eiddo ar agor. Trosedd ac Anhrefn yn bodoli drwy'r holl amseroedd agor.

Diogelu Plant rhag Niwed

Roedd tystiolaeth glir fod plant dan oed yn syml yn mynd i mewn i’r eiddo heb gwmni oedolyn a bod eu presenoldeb yno ddim yn cael ei herio gan staff a rheolwyr. Roedd modd i blant dan oed gael gafael ar alcohol ac ni chawsant eu herio. Roedd hyn yn annerbyniol a phlant yn cael eu rhoi mewn perygl. Roedd plant hefyd mewn perygl o ymosodiad, yn enwedig pan oedd tystiolaeth bod dynion yn mynd i mewn i’r eiddo ac yn datgelu eu horganau rhywiol ar sawl achlysur a bod hynny ddim yn cael ei herio gan staff a rheolwyr. Dangosodd y lluniau teledu cylch cyfyng ddyn (sydd wedi cael ei wahardd o nifer o sefydliadau eraill yn y Rhyl) yn dangos ei organau rhywiol i bobl eraill ar sawl achlysur, ac yn uniongyrchol o flaen cwsmer oedrannus ar un achlysur. Ni ellir diystyru’r diffyg ymyrraeth gan reolwyr a'r risg y gall y math yma o ymddygiad ei beri i blant. Dim mesurau diogelu yn eu lle yn yr eiddo i amddiffyn plant rhag niwed. Plant (genethod ifanc) yn cael eu gweld yn y toiledau heb ei herio gan staff a rheolwyr, a gwelwyd ar y teledu cylch cyfyng fod dynion yn mynd i mewn i'r toiledau merched yn ddirwystr pan fyddai merched yn bresennol, gan beri risg i ferched a phlant.

Atal Niwsans Cyhoeddus

Roedd tystiolaeth bod y safle yn ffynhonnell niwsans cyhoeddus. Mae'r methiant i gydymffurfio â Rheolau'r Rhyl ac i ymgysylltu â Pub Watch a mynd i’r afael â’r ethos o ddiwylliant yfed mwy diogel yn rhemp yma gyda staff a rheolwyr yn dangos diffyg ymwybyddiaeth sylweddol. Roedd diystyru o'r cyfreithiau trwyddedu a chyngor a roddwyd gan weithwyr proffesiynol mewn maes o arbenigedd, a gynlluniwyd i gynorthwyo ac annog rheolaeth yr adeilad. Mae'r methiant yn parhau er gwaethaf nifer o ymdrechion gan weithwyr proffesiynol i gynorthwyo a hyrwyddo arferion rheoli cyfrifol yn yr eiddo. O ganlyniad, ni ellir cymryd unrhyw sicrwydd o’r ymdrechion ac ymgymeriadau diweddar i gydymffurfio sy’n cael ei ystyried yn rhy hwyr gan yr Is-bwyllgor.

Diogelwch y Cyhoedd

Ystyrir bod y safle'n anniogel i aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae diffyg rheolaeth yn y sefydliad i ymdrin yn effeithiol â throsedd ac anhrefn wedi rhoi staff a chwsmeriaid mewn perygl. Roedd tystiolaeth bod rheolwyr a goruchwylwyr yn yr eiddo yn ddibrofiad yn y gwaith o reoli sefydliad o'r fath faint a natur. Roedd pryder hefyd fod Deiliad Trwydded y Safle, Mr Benbow, yn dal i fod yn ddylanwad rheoli mewn perthynas â'r eiddo a oedd yn achos pryder difrifol. Nid oedd unrhyw sicrwydd cyflawn wedi’i roi o gwbl y byddai'n cael ei dynnu oddi ar unrhyw reolaeth dros yr eiddo.

Mae'r rheolaeth bresennol yn derbyn bod problemau wedi bod yn yr eiddo.

Ar y cyfan does gan yr Is-bwyllgor ddim ffydd a hyder ym mherchnogaeth a rheolaeth bresennol yr eiddo sy’n ddigonol i fodloni ei hun y gallai weithredu safle credadwy a diogel o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r cynigion i newid Deilydd Trwydded yr Eiddo a’r potensial i newid Goruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig yn annigonol i feithrin unrhyw hyder fod yna erbyn hyn ddigon o newid i sut y byddai'r adeilad yn cael ei redeg yn y dyfodol, yn enwedig os yw Mr Benbow, sef Deiliad y Drwydded ar gyfer yr eiddo ar hyn o bryd yn parhau i fod yn berchennog neu’n rheoli’r ffordd y mae’r cwmni yn gweithredu.  Dylai’r datblygiadau bach a wnaed yn y gwrandawiad, er eu bod yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at fynd i'r afael â'r problemau, fod wedi cael eu rhoi ar waith yn gynt o lawer ac roeddent eu hunain yn annigonol i fodloni'r Is-bwyllgor y dylai’r drwydded barhau.

Mae'r agwedd tuag at yr Heddlu a’r Swyddogion  Trwyddedu a oedd wedi ceisio eu cynorthwyo yn ystod y misoedd diwethaf yn destun pryder yn arbennig agwedd Goruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig presennol yn dweud ei bod o’r farn bod yn rhaid i bethau fod cynddrwg er mwyn gallu gwella.  Yn syml, nid yw’r Is-bwyllgor yn derbyn y farn honno.  Mae pobl wedi cael eu hanafu a’u gofidio o ganlyniad i achosion o drosedd ac anhrefn yn y sefydliad.  Nid yw'r farn a gymerwyd gan Oruchwyliwr yr Eiddo Dynodedig yn galonogol o gwbl ac yn dangos diffyg profiad a naïfrwydd am ofynion rhedeg eiddo trwyddedig yn unol â'r gyfraith.

Ym marn yr Is-bwyllgor Trwyddedu, mae methiant llwyr wedi bod yn rheolaeth yr eiddo i redeg sefydliad yn unol â gofynion y gyfraith.  Felly, mae’r Is-bwyllgor wedi penderfynu bod angen dirymu'r drwydded yn sgîl yr amgylchiadau hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 p.m.